**CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL A'R AMGYLCHEDD**
**15 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:**
Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Clive Carver, Bob Connah, Paul Cunningham, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Ray Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Owen Thomas, Andy Williams ac Arnold Woolley

**CYNRYCHIOLWYR:** Cynghorwyr: Geoff Collett (dros Paul Shotton), Mike Peers (dros Veronica Gay) a David Wisinger (dros Cindy Hinds)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr: Fe wnaeth Bernie Attridge, Helen Brown, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, Veronica Gay, Christine Jones a Billy Mullin fynychu fel arsylwyr

**CYFRANOGWYR:** Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gyllid; Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant); Rheolwr Meysydd Parcio a Gorfodi a Rheolwr y Rhaglen Gyllid.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a'r Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd.

## 1. PENODI CADEIRYDD

Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am enwebiadau am Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

Penodi'r Cynghorydd Ray Hughes yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni chafwyd dim datganiadau o gysylltiad.

## 3. YMGYNGHORIAD AR ADOLYGU FFIOEDD MEYSYDD PARCIO

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad gan esbonio pam bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal drwy gyd-gyfarfod o ddau Bwyllgor Trosolwg a Chraffu (Adnoddau Corfforaethol ac Amgylchedd). Gan fod i'r adolygiad o ffioedd meysydd parcio'r ochr gyllidebol ac ochr gweithredu'r meysydd parcio, a gan fod yr adolygiad o'r ffioedd yn fater nad oedd wedi cael sylw gan gyfarfodydd cyllideb y Cyngor llawn, roedd cyfarfod ar y cyd yn briodol –

Adnoddau Corfforaethol oedd y pwyllgor arweiniol dros graffu ar gyllidebau a'r Amgylchedd oedd y pwyllgor arweiniol dros bolisi a gweithrediadau'r meysydd parcio.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y cafwyd, yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018, gydgytundeb i gynyddu'r targed incwm ar gyfer parcio ceir £450,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Cydnabyddai y ceid, o bosibl, safbwyntiau gwahanol ynglŷn â sut i gyrraedd y targed ac atgoffodd yr aelodau bod cyrraedd y targed yn gyfrifoldeb i bawb.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) y ffioedd diwygiedig, ynghyd â'r trefniadau a'r dyddiad dechrau gohiriedig ar gyfer cyflwyno ffioedd parcio yn Fflint. Roedd ffioedd parcio ceir wedi cael ei drafod yn flaenorol gan Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a oedd yn agored i holl Aelodau'r Cyngor ar 16 Ionawr 2018. Yn ystod y cyfarfod, gwnaeth yr Aelodau nifer o awgrymiadau ar yr opsiynau, ac roedd esboniadau manwl o ba rai o'r awgrymiadau a dderbyniwyd a'r rhesymau pam na fwriwyd ymlaen ag eraill wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog fod y cyfle i gynnig rhoi cyfleoedd i barcio am ddim ar y stryd, yn agos i ganol trefi, wedi cael ei archwilio a bod y Cyngor wrthi'n ymgynghori gyda dau Gyngor Tref ynglŷn â'r potensial o ddileu gorchmynion parthau cerddwyr a fyddai'n caniatáu i gerbydau ddychwelyd i'r Stryd Fawr. Gallai cynghorau tref ystyried sybsideiddio ffioedd parcio yn eu hardaloedd. Byddai angen i unrhyw gynigion sicrhau bod y targedau incwm parcio ceir corfforaethol yn cael eu cyrraedd. Byddai'r system codi tâl am barcio ceir yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Ymddiheurodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad fod awgrym a wnaed gan y Cynghorydd Mike Peers yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 i gynyddu'r arhosiad lleiaf i 1 awr am 30c wedi'i hepgor o'r adroddiad. Sicrhaodd yr Aelodau fod yr awgrym hwn wedi cael ei ystyried ond y gwelwyd nad oedd yn fforddiadwy. Dywedodd pa mor bwysig oedd sicrhau hyfywedd canol trefi gan esbonio y byddai codi'r ffioedd parcio ceir yn talu'r gost o ofalu am y meysydd parcio ar draws Sir y Fflint.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y broses graffu wrth ystyried y ffioedd parcio ceir arfaethedig gan ddweud y byddai'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau o'r cyfarfod yn ei gyfarfod ef ar 20 Mawrth 2018. Cyfeiriodd at y broses heriol o bennu'r gyllideb a'i bryder, pe na chodid ffioedd parcio ceir i dalu costau llawn darparu'r gwasanaeth, y byddai'n rhaid dod o hyd i arbedion yn rhywle arall o fewn y Cyngor i fantoli'r gyllideb. Dywedodd y byddai'r ffioedd parcio ceir lleol yn dal yn gymharol isel.

Mae crynodeb o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau ynghlwm yn Atodiad 1 y cofnodion.

Yn dilyn y drafodaeth, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r wybodaeth ganlynol yn cael ei chasglu cyn cyfarfod y Cabinet ar 20 Mawrth 2018:-

- Gwerthuso a chostau'r cynnig gan y Pwyllgor i addasu'r rhestr ffioedd i £0.30 am 1 awr o £0.30 am 30 munud (dim ond i'r trefi hynny lle dangosir y ffi 30 munud yn y rhestr/atodiad);

- Manylion y costau rheoli/cynnal a chadw ar gyfer 2017/18 a 2018/19 yn ôl penawdau'r gyllideb sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad – gan ddangos union ac amcangyfrif/dosraniad fel y bo angen; a'r

- Rhestr lawn o feysydd parcio'r Sir sydd yn codi ffioedd a'r rheini sydd am ddim.

  Cynigiodd y Cynghorydd Heesom gefnogi argymhellion i'r Cabinet, yn amodol ar y pwyntiau a amlinellwyd gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Gofyn i'r Cabinet ystyried addasu'r rhestr ffioedd i £0.30 am 1 awr o £0.30 am 30 munud (dim ond i'r trefi hynny lle dangosir y ffi 30 munud yn y rhestr/atodiad);

(b) Bod y Pwyllgor yn gofyn am fanylion y costau rheoli/cynnal a chadw ar gyfer 2017/18 a 2018/19 yn ôl penawdau'r gyllideb sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad – gan ddangos union ac amcangyfrif/dosraniad fel y bo angen;

(c) Bod y Pwyllgor yn gofyn am y rhestr lawn o feysydd parcio'r Sir sydd yn codi ffioedd a'r rheini sydd am ddim; a

(d) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno ymateb ffurfiol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac Amgylchedd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2018.

## 4. Y CYHOEDD A'R WASG A OEDD YN BRESENNOL

Nid oedd dim un aelod o'r cyhoedd yn bresennol a dim ond un aelod o'r wasg.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.30yb a daeth i ben am 1.25yp)

……………………………………………

**Cadeirydd**

**Pryderon a godwyd gan yr Aelodau yn y cyd-gyfarfod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Amgylchedd dydd Iau 15fed Mawrth 2018**

| **Cynghorydd** | **Pryder** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| Cyng David Evans | Nid yw'r 30c am 30 munud yn ymarferol. A allai hwn fod yn gyfnod am ddim cyn codi ffi? | Amcangyfrifir y byddai'r gost o ddarparu cyfnod 30 munud am ddim ym mhob maes parcio yn £110 k y flwyddyn. |
| Cyng Owen Thomas | Pam bod yr Wyddgrug yn cael ei chosbi?<br><br>Bydd y ffioedd yn effeithio ar hyfywedd y farchnad.<br><br>A ydy'r Wyddgrug yn sybsideiddio llefydd eraill? | Nid yw'r Wyddgrug yn cael ei chosbi. Mae'r Wyddgrug yn wahanol i drefi eraill y Sir fel cyrchfan i dwristiaid ac ymwelwyr dydd ac mae'r ffioedd yn debyg i drefi tebyg yn yr ardal.<br><br>Mae'r ffioedd parcio ceir yn mynd i gronfa ar gyfer y Sir gyfan i dalu costau'r gwasanaeth cyfan.<br><br>Ceir hefyd drefniant rhannu incwm gyda Chyngor Tref yr Wyddgrug drwy gytundeb blaenorol. |
| Cyng Haydn Bateman | Nid yw arhosiad byr am £1 yn gyfiawn. Dylid ei ostwng i 50c. | Mae'r dewis 50c ar gael y tu allan i'r Wyddgrug ac yn Neuadd y Sir. |
| Cyng Ray Hughes | Nid yw'r ddwy awr arfaethedig yn ddigon hir, yn enwedig i bobl sy'n ymweld ar ddydd Sadwrn. | Nid oedd dim ymateb penodol yn ofynnol. |
| Cyng Chris Dolphin | Cydnabyddai na ellir safoni ffioedd parcio ceir ar draws ein holl drefi.<br><br>Mae angen rhoi sylw i'r 30c am 30 munud. Dylai fod am awr. | Mae angen ystyried y ffioedd parcio ceir yng nghyd-destun cylch cyllideb anodd ac yn erbyn ein polisi corfforaethol o adennill costau gwasanaethau drwy ffioedd lle bo modd.<br><br>Mae Sir y Fflint wedi penderfynu cadw rheolaeth dros ei feysydd parcio ac mae'r ffioedd yn llai nag awdurdodau cyfagos. Nid ydym yn bwriadu codi ffi yn ein parciau gwledig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd yn rhaid i wasanaethau eraill y cyngor ysgwyddo’r straen ariannol os nad ydym yn adennill costau yn y gwasanaeth parcio ceir.<br><br>Nid oes gennym unrhyw fwriad i godi ffi am barcio bobl anabl. |
| Cyng Geoff Collett | Mae’r Wyddgrug yn cael ei chosbi: ym mis Ionawr fe wnaethom bleidleisio y dylai pob tref gael ei thrin yn gyfartal. Nid yw’r Wyddgrug yn cael ei thrin yn deg.<br>Mae’r farchnad yn mynd yn llai.<br><br>Mae pobl yn cael cynnig tocynnau wedi’u defnyddio’n rhannol: a ellir mesur i ba raddau y mae hyn yn digwydd? | Yn seiliedig ar y cyfraniad disgwyliedig i Gyngor Tref yr Wyddgrug o £20k yn y flwyddyn ariannol newydd, mae mantais y ffioedd uwch yn yr Wyddgrug drwyddi draw yn oddeutu £200k y flwyddyn. |
| Cyng Andy Dunbobbin | A oes awdurdodau eraill sy’n rhedeg eu meysydd parcio eu hunain ond sydd ddim yn codi ffi? | Mae ein Cynghorau cyfagos i gyd yn codi ffi am eu meysydd parcio canol tref. |
| Cyng Carol Ellis | Gofynnodd i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i dderbyn y cymhorthdal a gynigir gan Gyngor Tref Bwcle. Teimlai na fyddai’r targedau incwm yn cael eu cyrraedd ac ystyried y llefydd parcio am ddim yn Aldi a Home Bargains ym Mwcle, a phe byddai’r Cyngor yn caniatáu i Gyngor Tref Bwcle dalu am y parcio ar y lefelau presennol, byddai hyn yn incwm sicr i’r Cyngor.<br><br>Holodd hefyd ynglŷn â’r posibilrwydd o golli | Byddai unrhyw gynnig lleol yn cael ei ystyried o fewn y cyfyngiadau canlynol:<br>• Ni ddylid bod dim gostyngiad yn y lefelau incwm cyffredinol oherwydd y lefelau ffioedd newydd<br>• Erys y cynigion o fewn y strategaeth meysydd parcio gyffredinol – h.y. dim parcio am ddim am gyfnodau estynedig.<br><br>Nid yw’r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd gan na chaiff y |

| | | |
|---|---|---|
| | incwm drwy beidio â chodi ffioedd yn Tinkersdale, Parc Gwepra nac Etna. | lefelau defnydd eu mesur. Cytunwyd yn 2015 na fyddai ffioedd yn cael eu cyflwyno os oedd llai na 50 o lefydd mewn tref. Ni fyddai cost cyflwyno ffioedd ar gyfer meysydd parcio gyda llai na 50 o lefydd yn gost-effeithiol, oherwydd y costau cyfalaf o osod y peiriannau talu. |
| Cyng Arnold Woolley | Ceir tri grym sy'n cystadlu: 1) angen y Cyngor am arian; 2) yr angen am lif arian i siopau Sir y Fflint a 3) yr angen i gadw arian ym mhocedi pobl Sir y Fflint. Dengys ystadegau'r Fargen Twf y ceir 8,000 o deuluoedd mewn oed gweithio lle nad oes neb yn ennill cyflog. Rydym wedi gweithredu'r ffi am finiau brown a'r cynnydd o 6.7% yn y Dreth Gyngor. | Cydnabyddir effeithiau'r sefyllfa ariannol bresennol ar y gwasanaethau cyhoeddus. |
| Cyng Paul Cunningham | Mae ein ffioedd yn llawer is na ffioedd ein cymdogion ac rydym yn gwneud yn dda i'w cadw mor isel ag a gynigir. | Nid oedd dim ymateb penodol yn ofynnol. |
| Cyng Clive Carver | Gofynnodd am gael gweld rhestr o'r holl feysydd parcio ar draws Sir y Fflint lle codir ffioedd.<br><br>Pwysleisiodd nad yw incwm o ddirwyon yn cael ei ddangos fel incwm meysydd parcio ac y dylai fod.<br><br>A allai'r swyddogion gorfodi ddefnyddio cof bach i adfer gwybodaeth am werthiant tocynnau er mwyn stopio'r angen am | Mae gennym 42 o feysydd parcio sy'n codi ffioedd a 13 nad ydynt yn codi ffioedd (heb gynnwys canolfannau hamdden, parciau, depos neu ysgolion ayb. – mae'r gost am bob maes parcio yn £16.9K y flwyddyn)<br><br>Gellir darparu lefelau incwm ond ceir targed incwm ar gyfer y gwasanaeth o'r gweithgaredd hwn.<br><br>Mae'r peiriannau'n cyfathrebu drwy gerdyn SIM i feddalwedd swyddfa gefn sydd â swyddogaeth amryfal i gefnogi effeithlonrwydd y gwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfathrebu telemetreg? | |
| Cyng Owen Thomas | Awgrymodd y dylai llefydd parcio yn agos i ganol tref yr Wyddgrug, ar rai dyddiau o'r wythnos, gael eu dynodi yn rhai arhosiad byr, gan ddenu mwy o refeniw. | Byddai newid y dynodiad yn ystod yr wythnos yn ddryslyd i ddefnyddwyr y meysydd parcio. |
| Cyng McGuill | Yn bryderus ynglŷn ag effaith y ffioedd parcio ceir cynyddol ar hyfywedd y cynllun busnes ar gyfer ein CAT s yn Nhreffynnon a Chei Connah. | Bydd y gwaith o fonitro presenoldeb yn y 2 ganolfan hamdden yn Fflint a'r Wyddgrug yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses fonitro 6 mis. |
| Cyng Mike Peers | Mae Tabl 1 yn yr adroddiad yn cyfeirio at y model busnes. Beth sy'n cael ei wneud i godi incwm?<br><br>A gawn ni ddadansoddiad o'r 'costau sylweddol' y cyfeirir atynt ym mhara 1/07 o'r adroddiad?<br><br>Mae'r dewis 1 awr ar goll o'r rhestrau ac mae ei angen. Nid yw'r dewis 30 munud yn ymarferol i bobl â phlant, coetsis, nac i rywun mewn cadair olwyn.<br><br>Sut ddaeth y drefn talu canran o'r arian yn ôl i fodolaeth? Gofynnodd sut daeth y cytundeb i ganran o'r incwm a gesglir o'r Wyddgrug gael ei roi'n ôl i Gyngor Tref yr Wyddgrug i fodolaeth. | Caiff dadansoddiad manwl o gostau 2017/18 ei rannu gyda'r Cabinet ynghyd â'r costau amcanestynedig ar gyfer 2018/19. Mae'r wybodaeth yn nodi lle mae'r costau yn rhagamcanion neu'n gostau gwirioneddol.<br><br>Darparwyd.<br><br>Mae pob dewis wedi cael ei ystyried.<br><br>Arferai'r Cyngor Tref gadw'r holl incwm o'r ffioedd parcio ceir (llai'r costau) – dilëwyd y trefniant hwn pan gyflwynwyd ffioedd ar draws y Sir. |

| | | |
|---|---|---|
| | Beth yw'r trefniadau arbennig ar gyfer ffermwyr ar ddiwrnod marchnad ym maes parcio Love Lane? | Mae hwn yn gytundeb ffurfiol sydd wedi'i hen sefydlu rhwng y Cyngor a'r arwerthwyr J Bradburne Price & Co. |
| Cyng Mike Allport | Ystyried newid y peiriannu i rai lle mae'n rhaid rhoi rhif cofrestru'r car i mewn, rhag i docynnau sydd heb ddod i ben gael eu pasio ymlaen. | Rydym newydd newid y peiriannau gan fod y math a awgrymwyd yn rhy gymhleth i ddefnyddwyr. Er hynny, gellid ailystyried hyn os credir y byddai hynny o fudd. |
| Cyng Richard Jones | Nid peiriannau pres ydy'r meysydd parcio ac mae'r cynigion yn fwy nag ond talu'r costau o £34k.<br><br>Beth yw'r costau cynnal a chadw?<br><br>Nid yw'r incwm o ddirwyon wedi'i gynnwys a dylid bod wedi gwneud hynny.<br><br>Ni ddylid bod wedi cynnwys 'hyblygrwydd'.<br><br>Bydd y cynigion yn cael effaith ar weithwyr yn y sector adwerthu. | Mae'r costau ar gyfer 2017/18 yn oddeutu £886k. Bydd y costau'n codi'r flwyddyn nesaf oherwydd yr Ardreth Annomestig Genedlaethol, chwyddiant cyflogau ayb. felly cynhwyswyd rhyw gymaint o hyblygrwydd.<br><br>Caiff dadansoddiad manwl o gostau 2017/18 ei rannu gyda'r Cabinet ynghyd â'r costau amcanestynedig ar gyfer 2018/19. Mae'r wybodaeth yn nodi lle mae'r costau yn rhagamcanion neu'n wirioneddol.<br><br>Pe cynhwyswyd yr incwm o Hysbysiadau ffioedd parcio byddai'n creu pwysau yn rhywle arall.<br><br>Cynhwyswyd yr hyblygrwydd yn dilyn pryderon gan aelodau'r Pwyllgor Craffu.<br><br>Mae'r costau dyddiol am barcio yn awr yn gyson ac yn deg ar draws y Sir. Mae'r gost yn rhesymol o'i chymharu â'r costau parcio dyddiol ym mhob tref. |